GIBSON, Syr JOHN (1841 - 1915), newyddiadurwr

Enw: John Gibson
Dyddiad geni: 1841
Dyddiad marw: 1915
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: newyddiadurwr
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: Bertie George Charles

Ganwyd 14 Chwefror 1841, mab i hetiwr o Lancaster. Oddeutu 1863 ymunodd ag *Advertiser* Croesoswallt fel argraffydd, ac yna dechreuodd ysgrifennu i'r papur hwnnw. Ar ôl ennill ohono brofiad fel newyddiadurwr yn siroedd Cymru a'r gororau, fe'i gwahoddwyd, ym Medi 1873, i drefnu a golygu 'r *Cambrian News* yn Aberystwyth. Trwy gymorth ariannol ffrindiau daeth y newyddiadur yn eiddo iddo yn 1880. Dan ei oruchwyliaeth, ei bersonoliaeth rymus, a'i syniadau annibynnol diofn ar faterion lleol a chenedlaethol, datblygodd y *Cambrian News* yn un o'r newyddiaduron wythnosol mwyaf dylanwadol yng Nghymru. Efe oedd awdur *Agriculture in Wales*, 1879, ac *Emancipation of Women*. Fe'i hurddwyd yn farchog yn 1915, a bu farw 16 Gorffennaf yr un flwyddyn.

Awdur

Dr Bertie George Charles, (1908 - 2000)

Ffynonellau

The Cambrian News and Merionethshire Standard, 8 Ionawr a 23 Gorffennaf 1915

Thomas Jones, *Leeks and Daffodils* (1942), 13-4

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 11887027

Wikidata: Q16839006

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu